

Gras

Darllen: 2 Corinthiaid 13:13

Mae'r gair 'gras' yn gyfarwydd i ni o ddyddiau plentyndod. Pan oeddwn yn blentyn bach yn ysgol y babanod, byddai'r athrawes yn ein gorfodi i gydadrodd y 'Gras', a ninnau'n rhuthro trwy'r geiriau er mwyn cael rhedeg adref. Dyna fu'r hanes ar hyd y blynyddoedd yn yr ysgol gynradd. Does gen i ddim cof i ni adrodd y weddi ar ddiwedd dydd yn yr ysgol uwchradd. Yn y gwasanaeth boreol yn unig y byddem yn ei hadrodd yno.

Ac ar ddiwedd oedfa, rhyw ruthro mynd fyddwn ni o hyd wrth weddio'r adnod hon o eiddo Paul - rhyw ryddhad mawr fod y gwasanaeth drosodd a'n bod ninnau'n cael mynd adref! Y peth diddorol am yr adnod hon a ddaw ar ddiwedd ail lythyr Paul at y Corinthiaid (2 Corinthiaid 13:13) yw'r ffaith fod 'Gras ein Harglwydd Iesu Grist' yn blaenori 'cariad Duw' a 'chymdeithas yr Ysbryd Glân'. A beth ddywed hynny wrthym? Onid 'gras' yw gair allweddol y grefydd Gristnogol – y gair sy'n dyrchafu Cristnogaeth, er nad oes sôn amdano ar wefusau Iesu ei hun? Gair Paul yw hwn. Caiff ei ddefnyddio oddeutu cant a hanner o weithiau yn y Testament Newydd, ac yn llythyrau Paul y ceir oddeutu cant ohonynt. Mae gras yn fwy na dim ond rhodd Duw i ddynion. Mewn gwirionedd, gras ydi Duw ei hun yn ei roi ei hunan i ni; Duw yn tywallt ei hunan arnom. Dyma'r ffordd y mae Duw yn delio â'i bobl ac yn eu trin. A'r hyn sy'n ddiddorol yw nad yw Duw'n aros nes ein bod yn edifarhau ond yn ein cynorthwyo i edifarhau. Yng nghefn gwlad Cymru erystalwm, roedd y gymuned yn un glos, a phawb i raddau helaeth yn adnabod ei gilydd yn dda ac yn barod i helpu ei gilydd. Roedd hyn yn hanfodol mewn cyfnod o gyni a thlodi, a chaed cydweithio da rhwng pobl. Daeth i glyw un teulu bod eu cymdogion wedi digio wrthyn nhw ac yn amharod i'w cynorthwyo mewn argyfwng. Bu cryn drafodaeth ar sut i wella'r berthynas, a'r farn oedd, 'Mae'n rhaid i ni geisio meddwl am ryw ffordd o wneud cymwynas â nhw'. Yn hytrach na mynd ati i ffraeo a thaeru, yr unig ffordd ymlaen

oedd cynnig rhywbeth amgenach, rhywbeth na fyddai'r teulu oedd wedi digio yn ei ddisgwyl.

Ac efallai mai dyna'r allwedd i amgyffred a deall ystyr 'gras'. Mae gras yn beth sydyn, annisgwyl a dirybudd. Roedd Paul yn deall peth felly'n iawn. Ac yntau ar ei ffordd i Ddamascus i erlid dilynwyr Iesu, 'yn sydyn fflachiodd o'i amgylch oleuni o'r nef. Syrthiodd ar lawr, a chlywodd lais yn dweud wrtho, "Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?"' (Actau 9:4). Roedd wedi cychwyn ar daith, oddeutu 140 o filltiroedd o Jerwsalem i Ddamascus. A phob cam o'r daith, mae'n debyg ei fod yn cael ei gythruddo a'i gorddi gan y ffaith fod y bobl yr oedd yn eu herlid yn dilyn Iesu. Fel aelod o sect y Phariseaid, roedd rhaid iddo roi terfyn ar hyn, unwaith ac am byth. Mae'r tensiynau'n tynhau a'i wrychyn yn codi, ac roedd y daith hir yn ychwanegu at ei gynddaredd a'i orffwylltra. Ond ar amrantiad, roedd y frwydr drosodd, 'Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?' Dyma'r dyn a gychwynnodd ei daith yn llawn cynddaredd, ond a gafodd ei arwain 'gerfydd ei law i mewn i Ddamascus' (Actau 9:8). 'Y fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi.' Erlidiwr yn dod trwy ras yn Apostol Iesu Grist.

Myfyrdod pellach:

Beth yn eich barn chi yw ystyr 'moddion gras'?

Barn y byd yw bod hyn rhy dda i fod yn wir. Beth yw eich barn chi?